

Bwletin ystadegol

Teithio i'r gwaith, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021

Gweithio o'r cartref, dull o deithio a phellter teithio i'r gwaith, data Cyfrifiad 2021.



Cysylltu â:
Sarah Garlick
census.customerservices@ons.gov.uk
+44 1329 44 4972

Dyddiad rhyddhau:
8 Rhagfyr 2022

Rhyddhad nesaf:
I'w gyhoeddi

Cynnwys

1. Prif bwyntiau
2. Gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf
3. Dull o deithio i'r gwaith
4. Pellter teithio i'r gwaith
5. Data teithio i'r gwaith
6. Geirfa
7. Mesur y data
8. Cryfderau a chyfyngiadau
9. Dolenni cysylltiedig
10. Cyfeirio at y bwletin ystadegol hwn

1. Prif bwyntiau

- Cafodd Cyfrifiad 2021 ei gynnal yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19), cyfnod o newid cyflym heb ei debyg; bydd y cyfyngiadau symud cenedlaethol, y canllawiau cysylltiedig a'r mesurau ffyrlo wedi effeithio ar bwnc teithio i'r gwaith.
- Cymerwch ofal wrth ddefnyddio'r data hyn at ddibenion polisi a chynllunio.
- Mae Cyfrifiad 2021 yn amcangyfrif bod 8.7 miliwn (31.2%) o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith yng Nghymru a Lloegr yn gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf yn yr wythnos cyn Diwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021.
- Nododd ychydig dros 19.1 miliwn o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith (68.8%) ddull o deithio i'r gwaith heblaw am weithio gartref neu o'r cartref yn bennaf.
- Y dull mwyaf cyffredin o deithio i'r gwaith oedd gyrru mewn car neu fan (45.1%, 12.5 miliwn o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith).

2. Gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf

Yn 2021, roedd 27.8 miliwn o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith yn ystod yr wythnos cyn Diwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021.

Ar ffurflen Cyfrifiad 2021, gofynnwyd i bobl a oedd mewn gwaith neu i ffwrdd o'r gwaith dros dro yn ystod yr wythnos cyn Diwrnod y Cyfrifiad "Sut ydych chi'n teithio i'r gwaith fel arfer?". Gofynnwyd i bobl ddewis un dull o deithio yr oeddent yn ei ddefnyddio ar gyfer y rhan hiraf, o ran pellter, o'u taith arferol i'r gwaith.

Roedd cyfanswm amcangyfrifedig o 8.7 miliwn o bobl yng Nghymru a Lloegr a oedd yn gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf, sef 31.2% o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith.


Roedd cyfrannau tebyg, tua 30%, yn gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf yn 2021 yn Lloegr (31.5%) ac yng Nghymru (25.6%). Yn Lloegr, roedd y canrannau rhanbarthol o bobl a oedd yn gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf yn amrywio o 24.8% yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr i 42.1% yn Llundain.

Ledled Lloegr, roedd y canrannau mwyaf o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith ac yn gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf yn byw yn awdurdodau lleol Ninas Llundain (67.3%) ac yn Richmond upon Thames (58.8%), ac roedd y gyfran isaf yn byw yn Boston yn Nwyrain Canolbarth Lloegr (10.6%). Yng Nghymru, roedd y ganran a oedd yn gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf yn amrywio o 14.0% ym Mlaenau Gwent i 36.1% yng Nghaerdydd.

Gellir esbonio'r gwahaniaethau mewn gweithio o gartref ar lefel gwlad, rhanbarth ac awdurdod lleol yn rhannol yn ôl amrywiadau mewn cyflogaeth o fewn galwedigaethau a diwydiannau. Ceir rhagor o wybodaeth am sut roedd pobl wedi'u cyflogi yn ein [bwletin diwydiant a galwedigaeth](#) (yn Saesneg).

Ffigur 1: Roedd canran y bobl a oedd yn gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf yn amrywio ledled Cymru a Lloegr

Canran y preswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith ac yn gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf, 2021, awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr



[Embed code](#)

Source: Office for National Statistics – Census 2021

1. Ar adeg Cyfrifiad 2021, arweiniodd canllawiau a chyfyngiadau symud llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) at newidiadau digynsail i ymddygiad a phatrymau teithio. Nid yw'n glir a wnaeth ymatebwyr ar ffyrlo ddilyn y canllawiau yn ôl y bwriad.

O ganlyniad i bandemig y coronafeirws (COVID-19), roedd llywodraeth y DU wedi cyflwyno mesurau ffyrlo i sicrhau bod y rhai na allent weithio yn gallu parhau i gael eu cyflogi. Mae ffyrlo yn cynnwys pobl ar y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig a'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws. Wrth gwblhau ffurflen Cyfrifiad 2021, gofynnwyd i'r bobl ar ffyrlo ddweud eu bod i ffwrdd o'r gwaith dros dro, ynghyd â'r rhai a oedd dan gwarant neu'n hunanynysu oherwydd y pandemig. Cafodd pobl ar ffyrlo ganllawiau penodol i'w helpu i ymateb; darllenwch fwy am hyn yn [Gwybodaeth am ansawdd data am deithio i'r gwaith o Gyfrifiad 2021](#) (yn Saesneg). Cafodd y bobl a oedd i ffwrdd o'r gwaith dros dro eu cynnwys yn y boblogaeth sy'n weithgar yn economaidd. Ceir rhagor o wybodaeth am y boblogaeth sy'n weithgar yn economaidd yn ein [bwletin ar statws gweithgarwch economaidd](#) (yn Saesneg).

3. Dull o deithio i'r gwaith

Nid oedd ychydig dros 19.1 miliwn o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith (68.8%) yn gweithio gartref nac o'r cartref yn bennaf. Yn hytrach, gwnaethant nodi eu prif ddull o deithio i gyrraedd eu man gwaith. Mae'n debygol bod y cyfyngiadau yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cyfrannu at newidiadau yn y ffordd roedd pobl yn teithio i'r gwaith, gan gynnwys bod llai o bobl yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Darllenwch fwy yn yr adran [Cryfderau a chyfyngiadau](#).


Yng Nghymru a Lloegr, o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith:

- roedd 12.5 miliwn o bobl yn teithio i'r gwaith drwy yrru car neu fan (45.1% o'r holl breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith)
- roedd 1.1 miliwn yn teithio fel teithwyr mewn car neu fan (3.9%)

Roedd y ganran amcangyfrifedig a oedd yn gyrru car neu fan i'r gwaith yn uwch yng Nghymru (56.5%, 773,000) o gymharu â Lloegr (44.5%, 11.8 miliwn). Ledled rhanbarthau Lloegr, roedd y ganran a oedd yn teithio i'r gwaith drwy yrru car neu fan yn amrywio o 20.6% yn Llundain i 53.2% yn Nwyrain Canolbarth Lloegr. Y ganran fwyaf o blith awdurdodau lleol Lloegr oedd 64.0% yn Cannock Chase, ac yna Bolsover (63.9%) a South Holland (63.9%). Yng Nghymru, y ganran fwyaf oedd 68.5% ym Mlaenau Gwent.

Ffigur 2: Roedd mwy na dwy ran o bump o bobl a oedd yn teithio i'r gwaith yn teithio drwy yrru car neu fan yn bennaf

Y dull o deithio i'r gwaith, preswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith, 2021, Cymru a Lloegr



Source: Office for National Statistics – Census 2021

1. Ar adeg Cyfrifiad 2021, arweiniodd canllawiau a chyfyngiadau symud llywodraeth y DU at newidiadau digynsail i ymddygiad a phatrymau teithio. Nid yw'n glir a wnaeth ymatebwyr ar ffyrlo ddilyn y canllawiau yn ôl y bwriad.
2. Rydym wedi hepgor y categori "Gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf" yn y siart hon i'w gwneud yn haws gweld y dulliau o deithio i'r gwaith.

Yng Nghymru a Lloegr, roedd 5.5 miliwn o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith yn teithio i'r gwaith drwy brif ddull heblaw am fel gyrrwr neu deithiwr mewn car neu fan (19.8%). Ar ôl gyrru car neu fan, y dull o deithio i'r gwaith nesaf a ddewiswyd oedd ar droed (2.1 miliwn, 7.6%). Yr ymatebion sy'n weddill ar gyfer y dull o deithio i'r gwaith oedd:

- roedd bron i 1.2 miliwn o bobl (4.2%) yn teithio ar fws, bws mini neu goets
- roedd 569,000 (2.0%) yn teithio ar feic
- roedd 529,000 (1.9%) yn teithio ar drên
- roedd 505,000 (1.8%) yn teithio ar drên tanddaearol, metro, rheilffordd ysgafn neu dram
- roedd 200,000 (0.7%) yn teithio mewn tacsï
- roedd 129,000 (0.5%) yn teithio ar feic modur, sgwter neu foped
- roedd 286,000 (1.0%) yn teithio drwy ddefnyddio dull arall o deithio i'r gwaith

Roedd canran fwy o bobl yn teithio i'r gwaith ar droed yn Lloegr (7.6%) o gymharu â Chymru (7.1%). Yn Lloegr, roedd canran fwy o bobl yn y De-orllewin yn teithio i'r gwaith ar droed (9.2%) o gymharu â rhanbarthau eraill.

O gymharu â rhanbarthau eraill yn Lloegr, roedd canran fwy o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith ac yn byw yn Llundain:

- yn teithio ar drên tanddaearol, metro, rheilffordd ysgafn neu dram (9.9%, o gymharu â llai nag 1% mewn rhanbarthau eraill yn Lloegr)
- yn teithio ar fws, bws mini neu goets (8.9%, o gymharu â llai na 5% mewn rhanbarthau eraill yn Lloegr)
- yn teithio ar drên (5.3%, o gymharu â llai na 3% mewn rhanbarthau eraill yn Lloegr)

4. Pellter teithio i'r gwaith

Gofynnwyd i ymatebwyr 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith am gyfeiriad gweithle neu ddepo eu prif swydd, a ddefnyddiwyd gennym i gyfrifo'r pellter roeddent yn teithio i'r gwaith.

Yng Nghymru a Lloegr, roedd 15.1 miliwn o bobl yn teithio i weithle neu ddepo (54.3% o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith). Yn ogystal â'r 8.7 miliwn o bobl

a oedd yn gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf (31.2%), roedd 4.0 miliwn arall o bobl yn gweithio ar safle ar y môr yn bennaf, ddim mewn man penodol, neu y tu allan i'r DU (14.4%).

O'r rhai a oedd yn teithio i weithle neu ddepo, roedd 9.8 miliwn o bobl (35.4% o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith) yn teithio pellteroedd byr i'r gwaith (llai na 10 cilometr). Gan edrych yn fanylach ar y grŵp hwn:

- roedd 3.1 miliwn o bobl yn teithio lai na 2 gilometr (11.0% o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith)
- roedd 3.5 miliwn o bobl yn teithio o leiaf 2 gilometr i lai na 5 cilometr (12.6%)
- roedd 3.3 miliwn o bobl yn teithio o leiaf 5 gilometr i lai na 10 cilometr (11.8%)


O'r 5.3 miliwn o bobl sy'n weddill (19.0% o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith) a oedd yn teithio pellteroedd hirach i'r gwaith (10 cilometr a throsodd):

- roedd 2.9 miliwn yn teithio o leiaf 10 cilometr i lai nag 20 cilometr (10.5% o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith)
- roedd 1.1 miliwn yn teithio o leiaf 20 cilometr i lai na 30 cilometr (4.1%)
- roedd 470,000 yn teithio o leiaf 30 cilometr i lai na 40 cilometr (1.7%)
- roedd 359,000 yn teithio o leiaf 40 cilometr i lai na 60 cilometr (1.3%)
- roedd 383,000 yn teithio 60 cilometr a throsodd (1.4%)

Roedd canran fwy o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd mewn gwaith yn teithio pellteroedd byrrach (llai na 10 cilometr) a phellteroedd hirach (10 cilometr a throsodd) i'r gwaith yng Nghymru (36.3% a 24.2% yn y drefn honno) o gymharu â Lloegr (35.4% a 18.7% yn y drefn honno).

Ffigur 3: Roedd y mwyafrif o bobl a oedd yn teithio i'r gwaith yn teithio lai na 10 cilometr

Pellter teithio i'r gwaith, preswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith, 2021, Cymru a Lloegr



Source: Office for National Statistics – Census 2021

1. Ar adeg Cyfrifiad 2021, arweiniodd canllawiau a chyfyngiadau symud llywodraeth y DU at newidiadau digynsail i batrymau ymddygiad teithio. Nid yw'n glir a wnaeth ymatebwyr ar ffyrlo ddilyn y canllawiau yn ôl y bwriad.
2. Rydym wedi hepgor y categori “Gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf” a “Gweithio ar safle ar y môr, dim man penodol neu y tu allan i'r Deyrnas Unedig” yn y siart hon i'w gwneud yn haws gweld y pellteroedd teithio i'r gwaith.

O'r rhanbarthau yn Lloegr, y Gogledd-orllewin (40.7%) a Swydd Efrog a'r Humber (40.7%) oedd â'r canrannau uchaf o breswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith ac yn teithio pellteroedd byr i'r gwaith (llai na 10 cilometr). Roedd mwy nag un rhan o bump o breswylwyr 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith yn teithio pellteroedd hir (10 cilometr neu fwy) i'r gwaith yn rhanbarthau Dwyrain Canolbarth Lloegr (22.5%), Dwyrain Lloegr (22.3%), Gogledd-ddwyrain Lloegr (20.9%) a Gorllewin Canolbarth Lloegr (20.3%).

Yng Nghymru, yr awdurdodau lleol â'r canrannau mwyaf a oedd yn teithio pellteroedd byr (llai na 10 cilometr) oedd Abertawe (46.7%) a Wrecsam (46.3%), a'r awdurdodau lleol â'r canrannau mwyaf a oedd yn teithio pellteroedd hir (10 cilometr neu fwy) oedd Blaenau Gwent (32.5%) a Sir Gaerfyrddin (32.2%). Yn Lloegr, yr awdurdod lleol â'r ganran fwyaf a oedd yn teithio pellteroedd byr (llai na 10 cilometr) oedd Kingston upon Hull (61.1%), a'r ardal â'r ganran fwyaf a oedd yn teithio pellteroedd hir (10 cilometr neu fwy) oedd Breckland (35.0%).

5. Data teithio i'r gwaith

[Dull o deithio i'r gwaith](#) (yn Saesneg)

Set ddata | Rhyddhawyd ar 8 Rhagfyr 2022

Amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu preswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith yn yr wythnos cyn y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr yn ôl eu dull o deithio i'r gwaith (manyleb 2001). Amcangyfrifon ar Ddiwrnod y Cyfrifiad yw'r rhain, sef 21 Mawrth 2021.

[Pellter teithio i'r gwaith](#)

Set ddata | Rhyddhawyd ar 8 Rhagfyr 2022

Amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu preswylwyr arferol 16 oed a throsodd a oedd mewn gwaith yn yr wythnos cyn y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr yn ôl eu pellter teithio i'r gwaith. Amcangyfrifon ar Ddiwrnod y Cyfrifiad yw'r rhain, sef 21 Mawrth 2021.

6. Geirfa

Dull o deithio i'r gwaith

Gweithle person a'i ddull o deithio i'r gwaith. Dull 2001 o gynhyrchu newidynnau teithio i'r gwaith yw hyn.

Mae "Gweithio o'r cartref yn bennaf" yn gymwys i rywun a nododd ei gyfeiriad cartref fel ei weithle a'i fod yn teithio i'r gwaith drwy yrru car neu fan, er enghraifft ymweld â chleientiaid.

Pellter teithio i'r gwaith

Y pellter, mewn cilomedrau, rhwng cod post preswyl person a chod post ei weithle, wedi'i fesur mewn llinell syth. Mae pellter teithio o 0.1km yn nodi bod cod post y gweithle yr un peth â'r cod post preswyl. Caiff pellteroedd dros 1200km eu trin fel rhai annilys, a chaiff gwerth wedi'i briodoli neu ei amcangyfrif ei ychwanegu.

Mae "Gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf" yn cynnwys y sawl a ddirodd naill ai'r blwch 'Gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf' ar gyfer y cwestiwn am gyfeiriad y gweithle neu'r blwch 'Gweithio gartref neu o'r cartref yn bennaf' ar gyfer y cwestiwn am y dull o deithio i'r gwaith.

Mae "Arall" yn cynnwys dim gweithle penodol, gweithio ar safle ar y môr a gweithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Caiff pellter ei gyfrifo ar sail llinell syth rhwng cod post y cyfrifiad a chod post y gweithle.

Preswlydd arferol

Ystyr preswlydd arferol yw unrhyw un a oedd, ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, sef 21 Mawrth 2021, yn y Deyrnas Unedig ac wedi aros neu'n bwriadu aros yn y Deyrnas Unedig am gyfnod o 12 mis neu fwy, neu a oedd â chyfeiriad parhaol yn y Deyrnas Unedig ac a oedd y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac yn bwriadu aros y tu allan i'r Deyrnas Unedig am lai na 12 mis.

Mewn gwaith

Mae pobl 16 oed a throsodd mewn gwaith os oeddent yn gyflogeion neu'n hunangyflogedig rhwng 15 Mawrth a 21 Mawrth 2021.

Mae diffiniad y cyfrifiad yn wahanol i ddiffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol a ddefnyddir yn yr Arolwg o'r Llafurlu, felly nid oes modd cymharu'r amcangyfrifon yn uniongyrchol.

7. Mesur y data

Dyddiad cyfeirio

Mae'r cyfrifiad yn rhoi amcangyfrifon o nodweddion pob unigolyn a chartref yng Nghymru a Lloegr ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021. Caiff ei gynnal unwaith bob 10 mlynedd ac mae'n rhoi'r amcangyfrif mwyaf cywir o'r holl bobl a chartrefi yng Nghymru a Lloegr i ni.

Mae data'r farchnad lafur yn cyfeirio'n bennaf at weithgarwch ymatebwyr yn ystod y saith diwrnod diwethaf; mae hyn yn cyfeirio at 15 i 21 Mawrth 2021. Yn y grwpiau di-waith ac yn anweithgar yn economaidd, y pedair wythnos y mae person wedi bod yn chwilio am swydd ynddynt yw rhwng 21 Chwefror a 21 Mawrth 2021, a rhaid iddo allu dechrau swydd yn ystod y pythefnos nesaf, 21 Mawrth i 4 Ebrill 2021.

Rydym yn gyfrifol am gynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, ond byddwn hefyd yn rhyddhau allbynnau ar gyfer y Deyrnas Unedig mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Cofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon. Cafodd y cyfrifiad yng Ngogledd Iwerddon ei gynnal ar 21 Mawrth 2021 hefyd, ond cafodd cyfrifiad yr Alban ei symud i 20 Mawrth 2022. Mae holl swyddfeydd y cyfrifiad yn y Deyrnas Unedig yn gweithio'n agos i ddeall sut y bydd y gwahaniaeth hwn mewn dyddiadau cyfeirio yn effeithio ar ystadegau poblogaeth a thai'r Deyrnas Unedig gyfan, o ran yr amseru a'r cwmpas.

Cyfradd ymateb

[Cyfradd ymateb unigolion](#) (yn Saesneg) yw nifer y preswylwyr arferol y cafodd manylion unigol eu darparu ar eu cyfer ar holiadur a ddychwelwyd, wedi'i rannu ag amcangyfrif o'r boblogaeth breswyl arferol.

Y [gyfradd ymateb unigolion](#) (yn Saesneg) ar gyfer Cyfrifiad 2021 oedd 97% o boblogaeth breswyl arferol Cymru a Lloegr, a dros 88% ym mhob awdurdod lleol. Cafodd y rhan fwyaf o ffurflenni (89%) eu dychwelyd ar lein. Gwnaeth y gyfradd ymateb ragori ar ein targed, sef 94% yn gyffredinol ac 80% ym mhob awdurdod lleol.

Darllenwch fwy am gyfraddau ymateb sy'n benodol i gwestiynau ar lefel awdurdod lleol yn [Adran 4 o'n mesurau sy'n dangos ansawdd amcangyfrifon Cyfrifiad 2021](#) (yn Saesneg).

8. Cryfderau a chyfyngiadau

Gwybodaeth am ansawdd y data am y farchnad lafur

Cafodd Cyfrifiad 2021 ei gynnal yn ystod cyfnod o newid cyflym. Gwnaethom roi canllawiau ychwanegol i helpu pobl a oedd ar ffyrlo i ateb cwestiynau'r cyfrifiad am waith. Fodd bynnag, ni allwn gadarnhau sut y dilynodd pobl a oedd ar ffyrlo y canllawiau. Cymerwch ofal wrth ddefnyddio'r data hyn at ddibenion cynllunio. Darllenwch fwy am ein hystyriaethau ansawdd penodol yn ein [methodoleg ar wybodaeth am ansawdd data am y farchnad lafur o Gyfrifiad 2021](#) (yn Saesneg).

Diffiniadau'r Farchnad Lafur

Gan fod y cyfrifiad yn defnyddio diffiniadau gwahanol o'r farchnad lafur i'r rhai a ddefnyddir gan yr Arolwg o'r Llafurlu, mae'r amcangyfrifon yn amrywio rhwng y ddwy ffynhonnell hyn. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn ein herthygl sy'n [cymharu amcangyfrifon o'r farchnad lafur o Gyfrifiad 2021 a'r Arolwg o'r Llafurlu, Cymru a Lloegr: Mawrth 2021](#) (yn Saesneg).

Cyffredinol

Gallwch ddarllen am gryfderau a chyfyngiadau Cyfrifiad 2021 yn fwy cyffredinol yn ein hadroddiad [Gwybodaeth am Ansawdd a Methodoleg ar gyfer Cyfrifiad 2021](#).

Sicrhau ansawdd

Ceir manylion am y prosesau sicrhau ansawdd y gwnaethom eu defnyddio ar gyfer Cyfrifiad 2021 yn ein methodoleg am [sut y gwnaethom sicrhau ansawdd amcangyfrifon Cyfrifiad 2021](#).

Gallwch hefyd ddarllen am ein prosesau sicrhau ansawdd yn ein methodoleg am [sicrhau bod amcangyfrifon poblogaeth Cyfrifiad 2021 o'r ansawdd gorau posibl](#) (yn Saesneg).

Manyleb teithio i'r gwaith 2001

Mae data Cyfrifiad 2021 ar deithio i'r gwaith yn defnyddio manyleb teithio i'r gwaith 2001, dull sy'n cyd-fynd â newidynnau o Gyfrifiadau 2001 a 2011. O gymharu â [manyleb 2011](#) (yn Saesneg), nid yw data Cyfrifiad 2021 yn cynnwys ffigurau ar gyfer pobl sy'n gweithio o'r cartref ond sy'n defnyddio dull arall o deithio ar gyfer eu swydd. O ganlyniad, gall y ffigurau ar gyfer gweithio gartref fod yn uwch na newidyn 2011 oherwydd gwahaniaethau diffiniadol.

9. Dolenni cysylltiedig

[Map y cyfrifiad](#) (yn Saesneg)

Cynnwys rhyngweithiol | Diweddarwyd ar 8 Rhagfyr 2022

Adnodd map rhyngweithiol sy'n delweddu data Cyfrifiad 2021 ar bynciau gwahanol hyd at ardal awdurdod lleol a lefel cymdogaeth.

[Gwybodaeth am ansawdd data am deithio i'r gwaith o Gyfrifiad 2021](#) (yn Saesneg)

Methodoleg | Rhyddhawyd ar 8 Rhagfyr 2022

Gwybodaeth hysbys am ansawdd sy'n effeithio ar ddata am deithio i'r gwaith o Gyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr i helpu defnyddwyr i'w dadansoddi'n gywir.

[Newidynnau teithio i'r gwaith: Cyfrifiad 2021](#)

Gwybodaeth ategol | Rhyddhawyd ar 8 Rhagfyr 2022

Newidynnau a dosbarthiadau a ddefnyddir yn nata Cyfrifiad 2021 am deithio i'r gwaith.

[Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith \(Cyfrifiad2021\)](#)

Bwletin ystadegol | Rhyddhawyd ar 8 Rhagfyr 2022

Crynodeb gan Lywodraeth Cymru o ddata Cyfrifiad 2021 ar y farchnad lafur a theithio i'r gwaith.

10. Cyfeirio at y bwletin ystadegol hwn

Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), rhyddhawyd ar 8 Rhagfyr 2022, gwefan SYG, bwletin ystadegol, Teithio i'r gwaith, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021